



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Panel darllenwyr: hwyluso a chynyddu defnydd o ddeunydd Cymraeg

Chwefror 2023

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn defnyddio grŵp o wirfoddolwyr (sy'n cael eu hadnabod fel 'panel darllenwyr') i hwyluso a chynyddu defnydd o ddeunydd Cymraeg, megis taflenni i gleifion. Sylweddolodd y bwrdd iechyd nad oedd y Gymraeg bob amser yn eglur wrth gyfieithu testun neu wybodaeth glinigol am fod y cyfieithu yn rhy llythrennol a'r derminoleg yn anghyfarwydd, a bod hyn yn rhwystr. I atal hyn, rhoddodd Tîm y Gymraeg o fewn y bwrdd iechyd brotocol ar waith i sicrhau bod deunyddiau Cymraeg yn ddealladwy i ddefnyddwyr. Un elfen o'r protocol yw gofyn barn 'panel darllenwyr'.

Bwriad y panel yw darllen darn o waith sydd wedi'i gyfieithu ac ateb cyfres fer o gwestiynau am y testun i asesu pa mor ddealladwy yw'r deunydd. Mae'r bwrdd iechyd yn ystyried bod cynnwys yr elfen hon yn y broses o asesu ansawdd testunau yn golygu bod modd adnabod testunau sy'n anodd eu darllen cyn iddynt gael eu cyhoeddi, ac yn golygu bod modd gwneud newidiadau i'r testun er mwyn sicrhau y caiff ei ddefnyddio a'i fod yn addas.

Cefndir

Yn y gorffennol, roedd y bwrdd iechyd fel arfer yn cyhoeddi cyfieithiadau a oedd yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn glinigol ei natur, ond doedd dim cam rheoli ansawdd er mwyn gofyn am farn y gynulleidfa darged. Gallai'r wybodaeth hon gynnwys cyfarwyddiadau ôl-ofal, cyfarwyddiadau am gymryd meddyginiaeth neu gyngor am sut i wella yn dilyn llawdriniaeth, ymysg pethau eraill. Roedd y bwrdd iechyd yn ymwybodol bod cywirdeb y fath destunau yn hollbwysig am y gallai camgymeriadau yn yr iaith neu yn yr wybodaeth effeithio'n andwyol ar adferiad ac iechyd y claf. Sylweddolodd Tîm y Gymraeg felly bod angen ystyried ystod o ffactorau ychwanegol er mwyn sicrhau bod y testun Cymraeg yn ddealladwy.

Trwy ddefnyddio Cymraeg Clir, gofyn am farn ail gyfieithydd bob tro a sicrhau barn y gynulleidfa darged o'r fersiwn Cymraeg, sylweddolodd y bwrdd iechyd bod modd sicrhau bod y testun yn addas at ei ddiben.

Y sbardun felly ar gyfer ysgogi newid oedd ymgais a dymuniad i gynnig gwasanaethau o'r radd flaenaf i'r boblogaeth Gymraeg.

Y camau a roddwyd mewn lle

Aeth y bwrdd iechyd ati felly i recriwtio aelodau trwy'r Mentrau Iaith a rhwydweithiau lleol, a thrwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Wedyn, cynhaliodd y bwrdd waith ymchwil i weld sut mae paneli o'r fath yn gweithio mewn mannau eraill. Gwelodd bod y paneli hyn yn eithaf cyffredin yn Lloegr. Ar sail hyn, paratôdd y bwrdd iechyd ddeunyddiau i'w defnyddio ar gyfer y panel a'r wybodaeth angenrheidiol oedd ei hangen ar aelodau.

Cyn cychwyn defnyddio'r panel, aeth y bwrdd iechyd ati i nodi'r holl broses, o sicrhau ansawdd mewn protocol i ddisgrifio'r broses o sicrhau diogelwch testunau clinigol. Mae'r panel yn un elfen o blith nifer i sicrhau cywirdeb gwaith cyfieithu clinigol.

Mae cefnogaeth o fewn y bwrdd iechyd i'r syniad am ei fod, ar ei ffurf symlaf, yn ddull o ymgysylltu'n gadarnhaol â chleifion er mwyn gwella gwasanaethau.

Bob tro y mae testun clinigol yn cyrraedd y bwrdd iechyd, mae'n cael ei gyfieithu gan ddilyn yr egwyddor bod rhaid bod mor glir â phosibl. Wedyn bydd ail wiriad gan gyfieithydd arall. Yn olaf, bydd y testun yn cael ei anfon at y panel gyda ffurflen adborth fer i'w dychwelyd o fewn pythefnos. Bydd unigolyn neu unigolion cymwys yn ystyried wedyn a oes angen unrhyw addasiadau pellach.

Canlyniadau hyd yma

Mae'r panel darllenwyr yn gam pwysig yn y broses o sicrhau bod testunau clinigol yn ddiogel. Mae hefyd yn ffordd dda o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg o ansawdd da yn gyffredinol, a gall ddal unrhyw fannau aneglur yn y gwaith cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

Trwy egluro bod y gwaith yn destun proses rheoli ansawdd sydd hefyd yn cynnwys gofyn am farn y gynulleidfa darged, mae staff yn tueddu i fod yn fwy hyderus am gywirdeb y gwaith. Mae hyn yn bwysig am y gall hynny orchfygu'r pryder y bydd cyfieithu yn golygu 'colli'r ystyr' sydd weithiau yn rhwystr i sicrhau bod gwybodaeth glinigol ar gael yn ddwyieithog.

Sut gall hyn weithio i sefydliadau eraill?

Gall unrhyw sefydliad sefydlu panel o randdeiliaid ar gyfer agweddau amrywiol ar ei wasanaethau Cymraeg. Mae'r bwrdd iechyd yn ystyried ei fod yn bwysig defnyddio rhwydweithiau lleol er mwyn denu digon o bobl gan y gall fod yn anodd denu a chadw aelodau, ac mae cynyddu nifer yr aelodau yn gallu bod yn her hefyd.

Barn y Comisiynydd

Un o egwyddorion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Mae sicrhau ansawdd a chywirdeb testun Cymraeg yn ofyniad cyfreithiol o dan Safonau'r Gymraeg ond nid yw hyn ynddo'i hun yn golygu, nac yn sicrhau bod pobl yn defnyddio'r Gymraeg. Mae [Adroddiad Sicrwydd 2021-22](#) y Comisiynydd yn tynnu sylw at y ffaith bod gwaith ymchwil yn dangos y byddai mwy o bobl yn debygol o ddefnyddio'r Gymraeg pe bai sefydliadau yn gwella'r ffordd y maen nhw'n hwyluso a gwarantu gwasanaethau Cymraeg. Ystyrir bod cyfrifoldeb ar bob sefydliad nid yn unig i gydymffurfio â dyletswyddau statudol, ond hefyd i gyfrannu'n ehangach at hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

Mae'n bwysig felly bod sefydliadau yn ystyried ac yn cydnabod pwysigrwydd hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, ac yn cymryd camau rhagweithiol i wneud hynny. Ystyrir bod holi barn defnyddwyr yn ddull o gasglu adborth gwerthfawr ar ddeunyddiau a gwasanaethau Cymraeg, gan alluogi sefydliadau i adnabod unrhyw rwystrau sydd yn atal pobl rhag defnyddio'r Gymraeg. Trwy gasglu'r adborth yma yn amserol gall sefydliadau addasu a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau er mwyn sicrhau bod deunydd neu wasanaeth yn gwbl ffit i bwrpas o'r cychwyn, a chynyddu nifer y bobl sydd yn defnyddio'r Gymraeg.